

RHEOLAU SEFYDLOG

1. Cadeirydd

- 1.1. Etholir y Cadeirydd gan y Cyngor o blith aelodau'r Cyngor Cymuned.
- 1.2. Os etholir rhywun yn Gadeirydd i lenwi gwagle damweiniol, fel na g/chafodd flwyddyn lawn yn y swydd y Cadeirydd, ni fydd hynny'n rhwystr i benodi'r Cynghorydd honno / hwnnw'n Gadeirydd am flwyddyn lawn yn ei thro/dro.

2. Is-gadeirydd

- 2.1. Etholir gan y Cyngor Cymuned un o aelodau'r Cyngor Cymuned yn Is-gadeirydd.
- 2.2. Os bydd y Cadeirydd am unrhyw reswm yn methu gweithredu, neu os bydd swydd y Cadeirydd yn wag, caiff yr Is-gadeirydd gyflawni pob gorchwyl y gallai'r Cadeirydd fel y cyfryw ei ch/gyflawni.

3. Cyfarfodydd

- 3.1. Cynhelir cyfarfodydd o'r Cyngor ar yr ddydd Llun olaf o'r mis am 7 yr hwyr oni benderfynodd y Cyngor yn wahanol mewn cyfarfod cynharach. Os bydd y diwrnod hwnnw yn Wyl y Banc, cynhelir y cyfarfod ar y dydd Llun flaenorol. Nid yw'r Cyngor Cymuned yn cyfarfod ym misoedd Awst a Rhagfyr.
- 3.2. Mewn blwyddyn etholiad cynhelir y Cyfarfod Blynyddol ar y dydd ym mis Mai a benodi'r gan y Cyngor.
- 3.3. Dri diwrnod llawn cyn cyfarfod y Cyngor, yn cynnwys y penwythnos,
 - 3.3.1. Rhaid gadael ym mhreswylfod pob Cynghorydd, neu anfon yno drwy'r post / e bost, wŷs i'r Cynghorydd i ddod i gyfarfod, a honno wedi'i harwyddo gan swyddog priodol y Cyngor ac yn rhestru'r gwaith y bwriedir ei wneud yn y cyfarfod.
 - 3.3.2. Ni wneir cyfarfod yn annilys am fod rhyw Gyngorydd heb dderbyn gŵys yn unol ag is-baragraff 3.3.1 uchod.
- 3.4. Pan fo Cynghorydd yn cynrychioli'r Cyngor mewn unrhyw gyfarfod, pwyllgor neu Gynhadledd – pan fo'n briodol, disgwylir adroddiad ysgrifenedig neu ar lafar yng nghyfarfod dilynol y Cyngor.

4. Cworwm

- 4.1. 4 Cynghorydd yn cynnwys cadeirydd fydd cworwm: gall y Cyngor benderfynu ar y nifer yn ôl maint y Cyngor, ond ni cheir mabwysiadu cynnig i atal y rheolau sefydlog heb gytundeb dwy ran o dair o'r rhai sy'n bresennol ac yn pleidleisio.
- 4.2. Os na fydd cworwm yn bresennol pan ddaw'r Cyngor ynghyd, neu os yw nifer y Cynghorwyr yn llai na'r cworwm yn ystod y cyfarfod, trafodir y materion nas trafodwyd yn y cyfarfod naill ai yn y cyfarfod nesaf neu ar y diwrnod a bennir gan y Cadeirydd.
- 4.3. Bydd angen 8 o'r Cynghorwyr i fod yn bresennol i bleidleisio i newid y Rheolau Sefydlog.

5. **Datgan Buddiant**

- 5.1. Mae'r gyfraith yn gwneud darpariaeth benodol sy'n gwneud yn ofynnol i chi ddatgelu buddiannau ariannol uniongyrchol (gan gynnwys buddiannau priod/bartner yr ydych yn byw gydag ef neu hi) a all fod gennych mewn unrhyw fater a ddaw gerbron y Cyngor, pwyllgor neu is bwyllgor. Mae'n eich gwahardd rhag siarad neu bleidleisio ar y mater hwnnw. Bydd y rheolau sefydlog yn ei gwneud yn ofynnol i chi gilio o'r cyfarfod hefyd tra bo'r mater yn cael ei drafod. Rhaid i chi hefyd, yn ôl y gyfraith, ddatgan rhai buddiannau ariannol. Rhaid ufuddhau'n gydwybodol i'r gofynion hyn bob amser.
- 5.2. Gall buddiannau nad ydynt yn ariannol fod yr un mor bwysig. Ni ddylech ganiatáu i'r argraff gael ei chreu bod, neu y gallech fod, yn defnyddio'ch safle i hyrwyddo buddiant preifat neu bersonol, yn hytrach na hybu buddiant cyhoeddus cyffredin. Mae buddiannau preifat neu bersonol yn cynnwys rhai eich teulu a'ch cyfeillion yn ogystal â rhai'n codi drwy aelodaeth, neu berthynas â chlybiau, cymdeithasau a threfniadaethau eraill megis Seiri Rhyddion, undebau llafur a chyrrff gwirfoddol.
- 5.3. Buddiannau Anariannol Cyngorwyr - Bydd unrhyw aelod sydd â buddiant personol mewn unrhyw fater, a'r buddiant personol yn cael ei ddiffinio gan God Ymddygiad Llywodraeth Leol, yn datgan rhag blaen y buddiant hwnnw, ond gall aros, siarad a phleidleisio oni bai fod y buddiant yn glir a sylweddol, ac mewn achos felly bydd yr aelod yn ymadael â'r ystafell. Oni bai fod ystyriaethau perthnasol eraill ni ddylid ystyried ymwneud â busnes unrhyw gorff cyhoeddus gan aelod a fydd wedi ei b/phenodi yn gynrychiolydd y Cyngor. Mewn achos o'r fath dylai'r cyngorydd ddatgan y buddiant ond gall aros a chymryd rhan lawn yn y cyfarfod.

6. **Pleidleisio**

- 6.1. Pleidleisir yng nghyfarfod y Cyngor drwy arddangos dwylo, neu, os gofynnir am hynny gan mwyafrif o'r Cyngorwyr, drwy bleidlais gudd.
- 6.2. Gall y Cadeirydd bleidleisio fel Cyngorydd ar unrhyw fater, ac os bydd y pleidleisiau ar ryw fater yn gyfartal, gall iddi/iddo roi pleidlais fwrw.
- 6.3. Pleidlais gofrestredig;
 - 6.3.1. Gall unrhyw aelod hawlio pleidlais gofrestredig ar unrhyw achlysur (Rhaid i'r cais gael ei wneud cyn i'r bleidlais gael ei chymryd).
 - 6.3.2. Gall unrhyw aelod hawlio cofrestru ei bleidlais unigol ar unrhyw achlysur.

7. **Trefnu Pwyllgorau / Cyfarfodydd Cyngor**

- 7.1. Ym mhob cyfarfod blynyddol y gweithrediadau cyntaf fydd:
 - 7.1.1. Ethol Cadeirydd.
 - 7.1.2. Os bydd y sawl a etholwyd yn Gadeirydd yn absennol, penodir Cadeirydd i'r cyfarfod.
 - 7.1.3. Ethol Is-Gadeirydd.
 - 7.1.4. Enwebu a phenodi i gyrff allanol; wedi hynny dilynir y drefn a osodir yn 7.3 isod.
- 7.2. Ym mhob cyfarfod heblaw y Cyfarfod Blynyddol, os bydd y Cadeirydd yn absennol neu'n amharod i lywyddu, penodi Cadeirydd i'r cyfarfod fydd y swyddogaeth gyntaf.

- 7.3.** Wedi dilyn 7.1 uchod, oni phenderfyna'r Cyngor yn wahanol am resymau brys, hon fydd trefn y pwyllgorau/cyfarfodydd:
- 7.3.1.** Darllen ac ystyried y cofnodion; ac os bydd copi wedi'i anfon i bob Cynghorydd erbyn diwrnod cyhoeddi'r wŷs ar gyfer y cyfarfod, gellir cyfrif y cofnodion wedi'u darllen.
- 7.3.2.** Wedi ystyriaeth, cymeradwyo arwyddo'r cofnodion yn gofnod cywir gan Gadeirydd y cyfarfod.
- 7.3.3.** Dilyn rhaglen bwrpasol y pwyllgor/cyfarfod.
- 7.3.4.** Gall Cadeirydd y cyfarfod neu unrhyw Gynghorydd gynnig newid trefn rhaglen am resymau brys, ac os Cadeirydd y cyfarfod a gynhigiodd, gellir rhoi'r cynnig i bleidlais heb ei eilio, a rhoir cynnig o'r fath i bleidlais heb drafodaeth.

8. Cynigion a gyflwynir

- 8.1.** Ac eithrio fel y darperir gan y Rheolau Sefydlog hyn, ni cheir cyflwyno unrhyw gynnig oni fydd y cynigydd wedi rhoi rhybudd am ei eiriad a'i gyflwyno i'r Cadeirydd neu'r Clerc o leiaf saith diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor. Os yw mater yn codi ar ôl cau'r rhaglen gellir ei gyflwyno i'r Cadeirydd neu'r Clerc a bydd y Cadeirydd yn penderfynu os yw'r mater yn cael ei ystyried fel mater brys.
- 8.2.** Rhaid i bob cynnig neu argymhelliad fod yn berthynol i ryw gwestiwn y mae gan y Cyngor awdurdod arno, neu sy'n effeithio ar diriogaeth ei awdurdod.

9. Rheolau Dadl

- 9.1.** Ni cheir trafodaeth ar y cofnodion ond ynglŷn â'u cywirdeb. Trwy benderfyniad y gwneir cywiriadau yn y cofnodion.
- 9.2.** Rhaid i Gynghorydd gyfeirio'i h/araith at y cwestiwn dan sylw neu at esboniad personol neu gwestiwn o drefn.
- 9.3.** Ni chaiff araith y cynigydd barhau'n fwy na phum munud, ac eithrio trwy ganiatâd y Cadeirydd.
- 9.4.** Rhaid i welliant naill ai:
- 9.4.1.** Ddileu geiriau, neu
- 9.4.2.** Ychwanegu geiriau a dileu geiriau, neu
- 9.4.3.** Ychwanegu geiriau.
- 9.5.** Ni cheir cynnig gwelliant sydd i berwyl sy'n negyddu'r cynnig sydd gerbron y Cyngor.
- 9.6.** Os mabwysiedir gwelliant, bydd y cynnig gyda'r gwelliant yn disodli'r cynnig gwreiddiol, a gelli gynnig gwelliannau pellach arno.
- 9.7.** Ni chaiff Cynghorydd (heblaw am y cynigydd) siarad fwy nac unwaith ar unrhyw fater heb ganiatâd y Cadeirydd, ac eithrio i gynnig gwelliant neu ar gwestiwn o drefn neu esboniad personol, neu i gynnig cau'r drafodaeth.
- 9.8.** Ni cheir trafod dyfarniad y Cadeirydd ar fater o drefn, neu ar dderbynioldeb esboniad personol.
- 9.8.1.** At y Cadeirydd y cyfeirir areithiau'r Cynghorwyr.
- 9.8.2.** Os cyfyd rhagor nac un Cynghorydd, bydd y Cadeirydd yn galw ar un ohonynt i siarad, a rhaid i bawb arall ddisgwyl eu tro.

9.8.3. Os cyfyd y Cadeirydd yn ystod unrhyw drafodaeth, rhaid i bob Cynghorydd arall eistedd.

10. Camymddygiad

Gweler y Cod Ymddygiad.

11. Pleidleisio ar benodiadau

Pan fo rhagor na dau berson wedi'u henwebu ar gyfer unrhyw swydd a lenwir gan y Cyngor ac na cheir mwyafrif clir o bleidleisiau dros yr un ohonynt, dilëir o'r rhestr enw'r sawl a gafodd leiaf o bleidleisiau, a phleidleisir drachefn, gan ddilyn yr un drefn nes cael mwyafrif o bleidleisiau dros un person.

12. Trafodaethau a phenderfyniadau'n effeithio ar wasanaethyddion cyflog y Cyngor

Os cyfyd mewn cyfarfod unrhyw gwestiwn ynglŷn â phenodiad, ymddygiad, dyrchafiad, diswyddiad, cyflog neu amodau gwaith unrhyw un a gyflogir gan y Cyngor, ni cheir ei drafod nes i'r Cyngor neu'r Pwyllgor (yn ôl digwydd) benderfynu a ddylid cau allan y cyhoedd a'r wasg ai peidio.

13. Gwariant

Rhaid awdurdodi archebion talu arian drwy benderfyniad gan y Cyngor, ond mewn achos o frys gwirioneddol, gall y Clerc mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd a/neu'r Is-Gadeirydd ddod i benderfyniad arnynt.

14. Pwyllgorau

14.1. Gall y Cyngor yn y Cyfarfod Blyneddol benodi pwyllgorau sefydlog, a gall ar unrhyw adeg benodi pwyllgorau eraill a fydd yn angenrheidiol.

14.2. Cyn mynd at unrhyw waith arall yn ei gyfarfod cyntaf, rhaid i bob pwyllgor ethol Cadeirydd, a gellir ethol Is-Gadeirydd.

14.3. Ac eithrio lle y gorchymynnir fel arall gan y Cyngor (ar gyfer pwyllgor) neu gan y Cyngor neu'r pwyllgor a'i penododd, traean nifer yr aelodau fydd cworwm y pwyllgor.

15. Is-bwyllgorau

15.1. Ac eithrio lle gorchymynnir fel arall gan y Cyngor (ar gyfer is-bwyllgor) neu gan y Cyngor neu'r pwyllgor a'i penododd, tri aelodau fydd cworwm yr is-bwyllgor.

15.2. Yn unol ag amgylchiadau'r is-bwyllgor a barn y Cadeirydd – fe all na fydd rheol 9.6 yn hanfodol.

16. Cyfrifon a Datganiad Ariannol

16.1. Rhaid gosod pob cyfrif sydd i'w dalu, a phob hawliad ar y Cyngor, gerbron y Cyngor.

16.2. Wedi diwedd y flwyddyn ariannol, rhaid i'r Clerc rhoi i bob Cynghorydd datganiad o dderbyniadau a thaliadau.

17. Mynediad y Cyhoedd a'r Wasg i Gyfarfodydd

- 17.1.** Rhaid i'r cyhoedd a'r wasg gael mynediad i bob cyfarfod o'r Cyngor a'i bwyllgorau; ond gall cyfarfod gau allan y cyhoedd neu'r wasg neu'r ddau dros dro drwy'r penderfyniad hwn: Yn wyneb natur arbennig a/neu gyfrinachol y mater sydd ar gael ei drafod, mae'n ddymunol i'r budd y cyhoedd gau allan y cyhoedd a'r wasg dros dro gorchmynnir hwy i ymadael –
- 17.2.** Awdurdodir y Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd a'r Clerc i wneud unrhyw ddatganiadau i'r cyfryngau a ran y Cyngor.

18. Materion cyfrinachol

- 18.1.** Ni chaiff unrhyw Gynghorydd neu aelod o bwyllgor neu is-bwyllgor ddatguddio i neb nad yw'n Gynghorydd unrhyw fater y bydd y Cyngor neu'r pwyllgor (yn ôl y digwydd) yn datgan ei fod yn gyfrinachol gyda sylw penodol i 17.1.

19. Cyfarfodydd brys

- 19.1.** Os cyfyd achos ym marn Cynghorwyr bod angen galw cyfarfod brys – gorchmynnir cais swyddogol wedi ei alw gan gynifer â 4 Cynghorydd i sylw'r Cadeirydd neu'r Clerc, yn datgan y pwnc i'w drafod ac yn tanlinellu union resymeg y brys.
- 19.2.** Awdurdodir yr un hawl i'r Cadeirydd a/neu'r Clerc ar faterion o fyrder a/neu frys.

20. Cyfrwng iaith y pwyllgorau / cyfarfodydd

Gweinyddir a gweithredir trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg - Gweler Polisi Iaith.

21. Gwrthdroi penderfyniad blaenorol

- 21.1.** Ni ellir newid penderfyniad y Cyngor (boed yn gadarnhaol neu'n nacaol) o fewn chwe mis oddigerth naill ai drwy gynnig arbennig, y bydd rhybudd ysgrifenedig ohono yn dwyn enw o leiaf chwe aelod o'r Cyngor wedi ei gyflwyno neu drwy gynnig yn deillio o adroddiad neu argymhelliad pwyllgor.
- 21.2.** Pan fydd cynnig arbennig y cyfeirir ato wedi ei benderfynu ni all gynnig cyffelyb gael ei gyflwyno o fewn chwe mis pellach.

22. Gweithredu brys

Rhoddir hawl gweithredol i'r Clerc mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd neu'r Is-Gadeirydd i weithredu mewn perthynas i'r canlynol:

- 22.1.** Pan fydd brys gwirioneddol i weithredu i amddiffyn buddiannau'r Cyngor neu'r cyhoedd gan gynnwys cyfarwyddo Cyfreithiwr i weithredu os bydd angen.
- 22.2.** I ymateb i unrhyw ymgynghoriadau pan na fydd amser yn caniatáu eu cyflwyno i ystyriaeth y Cyngor oherwydd bod dyddiad i dderbyn sylwadau neu i weithredu cyn y cyfarfod nesaf o'r Cyngor.

23. Rheoliadau ariannol

Gweler Rheoliadau Ariannol

24. Seddi gwag

Pe bai sedd neu seddi wag ar y Cyngor yn codi yn ystod tymor, fydd angen cysylltu a'r adran berthnasol Cyngor Gwynedd a gweithredu ar y wybodaeth a dderbynnir ganddynt. Os na bydd ymgeisydd / ymgeiswyr wedi ei hethol yn dilyn y drefn yma, yna bydd rhaid cyfethol :

- 24.1.** Bydd y Cyngor yn hysbysebu'r sedd wag mewn ymgais i ddenu buddiant aelodau'r gymuned.
- 24.2.** Bydd y Cyngor yn gosod dyddiad cau.
- 24.3.** Bydd y Clerc yn gofyn am lythyrau cyflwyno gan bob ymgeisydd yn rhoi gwybodaeth sylfaenol amdanynt eu hunain.
- 24.4.** Bydd y Cyngor yn rhoi cyfle i ymgeiswyr roi cyflwyniad byr i aelodau'r Cyngor.
- 24.5.** Bydd aelodau yn pleidleisio am ymgeisydd o'u dewis os bydd mwy nag un ymgeisydd ar gyfer unrhyw sedd.
- 24.6.** Os mai un ymgeisydd sydd i unrhyw sedd, yna bydd yr ymgeisydd yn cael ei dderbyn/derbyn i'r sedd trwy bleidlais ar yr amod ei fod/bod yn gymwys.
- 24.7.** Bydd y Clerc yn sicrhau fod yr ymgeisydd yn arwyddo datganiad derbyn swydd.

Dyddiad adolygu a mabwysiadu: 30 Medi 2024